



# Coed Pengelli

## Teithiau Byr

**Hyd:** 1 awr 30 munud

**Pellter:** 2.2 milltir (3.6 km)

**Cludiant cyhoeddus:** Dim.

**Cyfeirnod map:** SN123396

**Cyfle i weld gwarchodfa natur ac un o'r coetiroedd mwyaf yn yr ardal.**

**Chwiliwch am:** Ystlumod, cnocelli'r coed, chwilod, rheolaeth coetir - coedlannu/pentyrrau boncyffion .

Mae Coed Pengelli yn goetir hynafol, un o'r mwyaf o'i fath i oroesi yng Nghymru. Credir bod rhannau ohono wedi bod yn goed ers diwedd yr Oes Iâ diwethaf - 10,000 o flynyddoedd yn ôl. Adlewyrchir ei bwysigrwydd fel cynefin yn y ffaith ei fod yn un o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol Cymru a'i fod hefyd yn un o warchodfeydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru.

Mae'r coed yn amrywiol iawn gyda deri'n tyfu ochr yn ochr â'r fedwen, onn a gwernen ac, ar lefel is, mae cyll, y ddraenen wen a chelyn yn ffynnu. Ychwanega'r gwyddfod arog gyfoethog ar noson o haf.

Am ganrifoedd, roedd Pengelli yn goetir weithiol, ac roedd pobl leol yn gofalu amdani fel adnodd pwysig. Yn y 1500au roedd yn eiddo i'r hanesydd George Owen. Bryd hynny, roedd moch, defaid a gwartheg yn ei bori a'r coed yn cael eu rheoli a'u cynaeafu ar gyfer pren a thanwydd.

Mae gan bob un o'r rhywogaethau gwahanol o goed ei werth ei hun. Defnyddiwyd y wernen wydn i wneud clociau; defnyddiwyd derw i wneud golosg a defnyddiwyd y rhisgl i drin lledr, ac roedd pren cyll yn cael ei ddefnyddio fel coed tân.

Mae Coed Pengelli yn gartref i ffwlbartiaid a phathewod. Nod llawer o'r gwaith rheoli a wneir yma yw gwella'r cynefin ar gyfer pathewod. Mae hefyd yn gartref i lawer o adar coetir, gan gynnwys tylluanod brech a'r gwybedwr brith, ymwelydd yn ystod yr haf sy'n defnyddio blychau nythu hwnt ac yma ar hyd y warchodfa.

Chwiliwch am flodau gwyllt niferus y coed. Yn y gwanwyn mae anemonïau gwyn y coed yn garped o flodau ar lawr y coetir. Yn hwyrach yn y flwyddyn gellir gweld y pili-palaod brithribin porffor a gwyn - chiliwch amdany'n nhw yn uchel yng nghanopi'r goeden ble maen nhw'n dodwyd eu hwyau.

**Cymeriad:** Coetir derw hynafol, llwybrau wedi'u diffinio'n dda - gall fod yn fwdlyd mewn mannau, tir yn ymdonni, (Gwarchodfa Natur Genedlaethol).